



## **Ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer Codi Arian – Chwefror 2018**

### **Cyflwyniad**

Mae'r papur ymgynghori hwn yn esbonio'r cyntaf o'r ymgynghoriadau y bydd y Rheoleiddiwr Codi Arian yn eu cynnal yn 2018. Rhagwelwn flwyddyn brysur o ymgysylltu â'r sector codi arian elusennol a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Yn ôl yr arfer, croesawn farn pawb sy'n defnyddio neu a effeithir gan newidiadau i'r Cod Ymarfer Codi Arian. Rydym wedi ymrwmo i ymgysylltu'n barhaus trwy ymgynghori er mwyn cadarnhau ein rhagdybiaethau a llywio unrhyw newidiadau a wnawn i safonau ac ymarfer codi arian.

### **Am yr ymgynghoriad hwn**

Mae tair rhan i'r ymgynghoriad hwn.

Mae Rhan A a Rhan B yn delio â materion penodol ynghylch y geiriad presennol neu gynnwys rheolau o fewn y Cod Ymarfer Codi Arian sydd wedi cael eu codi gan randdeiliaid neu sydd wedi deillio o'n gwaith rheoleiddio dros y 18 mis ers i ni gael ein lansio.

Mae Rhan C yn ymwneud â llwyfannau codi arian ar-lein ac yn cyflwyno rheolau newydd i'r Cod lle nad yw'r rheolau sy'n bod yn cwmpasu'n ddigonol y dull codi arian hwn sy'n fwyfwy poblogaidd.

Mae Rhan A a Rhan B wedi'u dosbarthu fel ymgynghoriadau Categori 3 o fewn ein proses ymgynghori gyhoeddedig ac mae Rhan C yn ymgynghoriad Categori 2, felly ceir amserlenni gwahanol ar gyfer ymateb i rannau gwahanol o'r ymgynghoriad hwn. Gallwch ddarllen y "Canllaw i'n Proses Ymgynghori" yn llawn ar ein gwefan.

### **Rhan A – Delio â Chwynion – Ymatebion erbyn 28 Chwefror 2018**

### **Rhan B – Archwilio cydymffurfiaeth â'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn – Ymatebion erbyn 28 Chwefror 2018**

### **Rhan C – Llwyfannau Codi Arian Ar-lein – Ymatebion erbyn 14 Mawrth 2018**

Mae manylion llawn ynghylch sut i ymateb wedi'u cynnwys ar ddiwedd y ddogfen hon.

Diolch am ymgysylltu â ni ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich ymatebion.

## Rhan A – Delio â Chwynion

### Y cyd-destun ar gyfer yr ymgynghoriad hwn

Mae ein swyddogaeth cwynion a gwaith achosion wedi bod yn weithredol am fwy na blwyddyn bellach. Rydym yn ystyried meysydd o'r Cod Ymarfer Codi Arian y gallai fod yn ddefnyddiol i'w hadolygu ar sail tystiolaeth o'n gwaith achosion, adborth gan elusennau a'r anawsterau a wynebwyd gan y Tîm Gwaith Achosion wrth wneud penderfyniadau gwaith achosion ynghylch delio â chwynion gan aelodau'r cyhoedd.

Mae'r Rheoleiddiwr Codi Arian o'r farn bod y tôn a ddefnyddir yn y rheolau ym mhwynt 1.6 o'r Cod yn oddrychol a gallai ennyn teimladau cryf. Nid yw hyn o gymorth mewn rhai achosion lle mae'r elusen dan sylw yn teimlo os caiff hi'n euog o dorri'r rheol hon bydd hyn yn llunio barn a sylwadau pellach am arferion cyffredinol yr elusen y tu hwnt i'r achos penodol neu'r modd y cafodd yr achos ei drin.

Defnyddiwn yr adran hon o'r Cod pan nad ydym o'r farn bod elusennau wedi ymateb yn llawn neu'n brydlon i gŵyn. Drwy wneud hynny, gwelwyd bod sefydliadau yn teimlo, pan fyddant yn nodi eu bod wedi gweithredu'n groes i'r adran hon o'r Cod, ein bod yn awgrymu y gallant fod wedi mynd ati'n fwriadol i beidio â bod yn agored neu'n onest wrth ymateb i gwynion. Go brin mai dyma fydd yr achos ac nid yw'n fwriad ychwaith gan y Rheoleiddiwr Codi Arian i awgrymu mai dyma yw'r achos.

#### Rheolau presennol:

##### 1.6 Cwynion a phryderon

- a) **RHAID** i sefydliadau gael trefn gwyno sy'n **RHAID** bod yn gymwys hefyd i unrhyw godi arian gan Drydydd Parti ar eu rhan.
- b) **RHAID** i sefydliadau ymateb i unrhyw gwynion gan roddwyr, buddiolwyr neu bartïon eraill mewn ffordd amserol, barchus, agored a gonest.
- c) **RHAID** i sefydliadau sicrhau eu bod yn gweithredu ar yr hyn a ddysgir o unrhyw gwynion.

### Pwrpas yr ymgynghoriad hwn

Cynigiwn ddileu'r ymadrodd '*mewn ffordd amserol, barchus, agored a gonest*' ac yn lle hynny bod yn fwy penodol ynghylch yr hyn a olygwn wrth y termau hyn.

Ym marn y Rheoleiddiwr Codi Arian mae'r geiriad arfaethedig yn egluro'r hyn a ddisgwylw'n gan sefydliadau pan fyddant yn ystyried, yn ymchwilio ac yn ymateb i gwynion, ac mae'n dileu'r posibilrwydd o awgrymu mewn ffordd nad yw o fudd ac a allai ennyn teimladau cryf fod sefydliadau wedi bod yn anfwriadol o anonest wrth beidio ag ymateb yn llawn i gwynion.

**Geiriad diwygiedig arfaethedig (newidiadau mewn teip *italig*, dileadau wedi'u taro allan):**

### **1.6 Cwynion a phryderon**

a) **RHAID** i sefydliadau gael trefn gwyno glir sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n **RHAID** bod yn gymwys hefyd i unrhyw godi arian gan Drydydd Parti ar eu rhan.

b) Wrth ddelio â chwynion **RHAID** i sefydliadau sicrhau bod:

i) cwynion yn cael eu hymchwilio'n drwyadl ac yn wrthrychol er mwyn sefydlu ffeithiau'r achos, gan osgoi unrhyw oedi diangen; a

ii) ymatebir i gwynion mewn modd teg, cymesur a phriodol.

c) **RHAID** i sefydliadau adolygu'n rheolaidd unrhyw wersi sydd i'w dysgu gan gwynion a defnyddio'r hyn a ddysgwyd i lywio gweithgareddau codi arian yn y dyfodol.

### **Cwestiynau'r ymgynghoriad ar Ran A**

Mae'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn ceisio eich barn ar y newidiadau arfaethedig i'r Cod:

**1.** Ydy'r geiriad diwygiedig arfaethedig ar gyfer y rheolau sydd wedi'u cynnwys ym mhwynt 1.6 o'r Cod yn esbonio'r hyn sy'n ofynnol gan sefydliadau o ran cwynion?

Ydy / Nac ydy (Os nac ydy, esboniwch eich rhesymau)

**2.** Oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y geiriad diwygiedig arfaethedig?

## Rhan B – Archwilio cydymffurfiaeth â'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn

### Y cyd-destun ar gyfer yr ymgynghoriad hwn

Mae Rheol 8.2.3 o'r Cod yn ei gwneud hi'n ofynnol i asiantaethau codi arian dros y ffôn sy'n gwneud galwadau ar ran elusen i gael achrediad sicrwydd y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn neu wedi dechrau'r broses o'i gael.

Er bod sicrwydd y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn yn un ffordd bendant o ddangos cydymffurfiaeth ag achrediad cydnabyddedig, nid dyma'r unig ffordd y gellir sicrhau cydymffurfiaeth yn y cyswllt hwn.

Mae'r Rheoleiddiwr Codi Arian wedi derbyn sylwadau gan sefydliadau llai sy'n dweud bod y rheol bresennol yn gosod gofynion o ran adnoddau arnynt sy'n anghymesur yn eu barn nhw â maint y sefydliad a graddfa'r gweithgarwch codi arian a wnânt.

Os mai cydymffurfiaeth archwilio yw'r gofyniad allweddol ar gyfer y rheol hon, os gall sefydliadau gyflawni hyn trwy ffyrdd mwy cost-effeithiol neu sy'n gofyn am lai o adnoddau, ni ddylai fod rheidrwydd arnynt o dan y Cod i gyflawni hyn trwy gael achrediad sicrwydd y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn yn unig.

### Y Rheol Bresennol:

#### 8.2.3 Y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn

Mae'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn a'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn Corfforaethol yn caniatáu i unigolion neu gwmnïau gofrestru eu rhifau ffôn i ddangos nad ydynt am gael galwadau ffôn gwerthu a marchnata na ofynnwyd amdanynt...

...d) **RHAID** i asiantaethau codi arian dros y ffôn sy'n gwneud galwadau codi arian ar ran elusen gael ardstyiad cymeradwy y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn neu fod yn y broses o wneud cais amdano.

### Pwrpas yr ymgynghoriad hwn

Mae'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn cynnig dileu rheol 8.2.3 gan roi disgrisiwn i sefydliadau o ran sut y maent yn archwilio cydymffurfiaeth â'r gofynion cyfreithiol ynghylch y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn.

Ein cynnig yw yn hytrach na rheol, dylid cyfeirio at achrediad sicrwydd y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn yn y cyflwyniad i'r adran hon yn lle hynny. Drwy wneud hyn bydd sefydliadau yn ymwybodol o wasanaeth archwilio cydymffurfiaeth y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn penodol hwn, ond nid eu gorfodi i'w ddefnyddio.

**Geiriad diwygiedig arfaethedig y cyflwyniad i'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn (newidiadau mewn teip *italig*, dileadau wedi'u taro allan):**

### **8.2.3 Y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn**

Mae'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn a'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn Corfforaethol yn caniatáu i unigolion neu gwmnïau gofrestru eu rhifau ffôn i ddangos nad ydynt am gael galwadau ffôn gwerthu a marchnata na ofynnwyd amdanynt.

*Mae'n bwysig bod sefydliadau yn cymryd camau i archwilio eu cydymffurfiaeth â'r gofynion cyfreithiol ynghylch y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn. Mae Sicrwydd y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn yn gynllun achredu cydnabyddedig y gall sefydliadau ei ddefnyddio i ddangos eu bod yn cydymffurfio...*

~~...d) **RHAID** i asiantaethau codi arian dros y ffôn sy'n gwneud galwadau codi arian ar ran elusen gael ardstiad cymeradwy Gwasanaeth Dewis Galwadau neu fod yn y broses o wneud cais amdano.~~

### **Cwestiynau'r ymgynghoriad ar Ran B**

Mae'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn ceisio eich barn ar y newidiadau arfaethedig i'r Cod:

**1.** Ydych chi'n cytuno na ddylai'r Cod Ymarfer Codi Arian ei gwneud hi'n orfodol i bob sefydliad ddefnyddio cynllun achredu sicrwydd y Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn ac felly dileu rheol 8.2.3?

Ydw / Nac ydw (Os nac ydych, esboniwch eich rhesymau)

**2.** Ydych chi'n cytuno bod y geiriad ychwanegol arfaethedig yn y cyflwyniad i 8.2.3 yn tynnu sylw digonol at yr angen i sefydliadau archwilio cydymffurfiaeth â'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn?

Ydw / Nac ydw (Os nac ydych, esboniwch eich rhesymau)

**3.** Oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y geiriad diwygiedig arfaethedig?

## Rhan C – Llwyfannau Codi Arian

### Y cyd-destun ar gyfer yr ymgynghoriad hwn

Bu cynnydd cyflym iawn dros y blynyddoedd diwethaf ym mhoblogrwydd llwyfannau rhoi ar-lein a chyllido torfol, yn enwedig pan fydd elusennau neu unigolion am godi arian yn gyflym, boed hynny mewn ymateb i argyfwng i helpu unigolion mewn angen neu ar gyfer elusen at ddibenion cyffredinol neu ar gyfer prosiect penodol.

Bydd nifer o elusennau yn defnyddio llwyfannau rhoi fel rhan o'u hagwedd gyffredinol at godi arian i gyfeirio cefnogwyr o'u gwefan i lwyfan codi arian os ydynt am roi i'w hachosion.

Yn aml iawn, bydd unigolion sydd am godi arian ar gyfer achos yn defnyddio dull cyllido torfol, weithiau wedi'i gysylltu â digwyddiad y maent yn cymryd rhan ynddo, er enghraifft Marathon Llundain. Elusen fydd y buddiolwr yn y pen draw ond wrth iddo fod yn fwyfwy poblogaidd gall fod achos mwy lleol gyda chysylltiad personol (e.e. talu am gostau meddygol).

Mae'n hawdd iawn i unigolyn neu elusen gofrestru a sefydlu cyfrif. Mae gan y rhan fwyaf o lwyfannau ryw fath o brosesau gwirio hunaniaeth a gwrth-dwyll yn eu lle.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw reolau penodol yn y Cod ar gyfer y dull hwn o godi arian sy'n fwyfwy poblogaidd. Ceir sawl ystyriaeth i'r Rheoleiddiwr Codi Arian ynghylch defnyddio llwyfannau ar-lein a'r sefydliadau sy'n eu rhedeg:

- Ffydd a hyder cyhoeddus – mae defnyddio llwyfannau codi arian wedi'i gynllunio'n benodol i alluogi'r cyhoedd i gysylltu ag achosion elusennol. Mae'n rhaid i'r cyhoedd gael hyder yn y rhai sy'n gofyn iddynt roi a hefyd yn y llwyfannau a ddefnyddir a'u bod yn gyfreithlon os ydynt am roi.
- Ffydd gyhoeddus ehangach – gyda hyder mewn arferion codi arian dan y chwyddwydr dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n rhaid i bob dull a ddefnyddir sicrhau ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol at farn y cyhoedd am godi arian.
- Canllawiau gan ddarparwyr llwyfannau – mae'n rhaid i aelodau'r cyhoedd sy'n dewis defnyddio llwyfannau rhoi ar-lein ddeall y dull hwn yn llawn, ac ar hyn o bryd nid yw'r canllawiau gan ddarparwyr yn gyson ar gyfer y rhai sy'n sefydlu tudalen a'r rhai sy'n rhoi trwy'r dudalen honno.
- Tryloywder i'r cyhoedd – bu ffocws arbennig yn y cyfryngau a'r senedd ar y ffioedd a'r taliadau a godir gan ddarparwyr llwyfannau codi arian. Nid oes cylch gorchwyl gan y Rheoleiddiwr Codi Arian o ran pennu sut y mae cyflenwr masnachol yn gweithredu ei drefniadau talu, ond mae'n rhaid i'r trefniadau hynny fod yn glir i bob parti sy'n rhan o drafodion rhoi. Mae'r wybodaeth a roddir i ddefnyddwyr llwyfannau codi arian yn anghyson ar draws darparwyr gwahanol ar hyn o bryd.

### Pwrpas yr ymgynghoriad hwn

Bydd y Rheoleiddiwr Codi Arian yn ychwanegu rheolau am lwyfannau codi arian ar-lein i'r Cod Ymarfer Codi Arian o dan adran 9 Cyfryngau Digidol. Cynigiwn fod y rheolau canlynol fel y cawsant eu geirio yn cael eu hychwanegu at y Cod.

## Cynigiwn ychwanegu'r canlynol i adran 9.0 o'r Cod Ymarfer Codi Arian (Cyfryngau Digidol)

### 9.3 Llwyfannau Codi Arian Ar-lein

At ddiben y Cod hwn, **llwyfannau codi arian ar-lein** yw gwefannau neu gymwysiadau a weithredir gan gwmnïau masnachol, sefydliadau di-elw neu gan yr elusennau eu hunain sy'n cynnal ymgyrchoedd codi arian elusennol ar gyfer unigolion neu sefydliadau. Maent yn galluogi rhoddwyr i roi at achosion elusennol trwy ddefnyddio eu cyfrifiaduron, ffonau clyfar a dyfeisiau electronig eraill, a thrwy eu cardiau credyd, cardiau debyd neu waledi digidol (dyfeisiau sy'n galluogi unigolyn i wneud trafodion electronig, megis Paypal).

*Ochr yn ochr â'r rheolau isod, dylai Llwyfannau Codi Arian gyfeirio'n benodol at yr adrannau canlynol o'r Cod:*

*Adran 4: Trydydd partïon ar gyfer ystyriaethau sy'n ymwneud ag asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau codi arian.*

*Adran 5: Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian ar gyfer ystyriaethau sy'n ymwneud â diogelu data.*

*Adran 12: Partneriaid Corfforaethol ar gyfer ystyriaethau sy'n ymwneud â chysylltiadau Cyfranogwr Masnachol a darparu gwasanaethau cynnal i sefydliadau codi arian.*

*Adran 20: Delio â Rhoddion ar gyfer ystyriaethau sy'n ymwneud â thrafodion cerdyn.*

#### **Tâl am gynnal ymgyrch codi arian**

9.3.1 Pan fydd Llwyfan Codi Arian yn derbyn cyfran o'r rhodd neu rodd cymorth fel tâl ar gyfer cynnal ymgyrch codi arian, **RHAID** i'r sefydliad sicrhau bod y manylion canlynol i'w gweld yn glir i unigolion sy'n rhoi trwy eu safle a'u bod wedi'u harddangos cyn y pwynt lle y gofynnir am fanylion ariannol:

- a) Sut y caiff eu tâl ei gyfrifo (er enghraifft fel canran o'r rhodd cymorth, tâl a godir ar rodd neu X punt/ceiniog ar gyfer pob rhodd).
- b) Swm y tâl a gânt, os gwyddys ar y pwynt gwneud rhodd, ac os na wyddys, enghraifft sy'n dangos y swm y byddai'r sefydliad yn ei dderbyn ar gyfer rhodd ddamcaniaethol.

#### **Cyfrifoldebau Llwyfannau Codi Arian sy'n cynnal apeliadau gan unigolion**

9.3.2 **RHAID** i lwyfannau codi arian gyhoeddi canllawiau arfer da ar gyfer unigolion sy'n sefydlu tudalen codi arian ar eu gwefan i sicrhau bod gan eu darpar roddwyr ddigon o wybodaeth am apeliadau cyn rhoi, a bod y cronfeydd a godir yn cael eu gweinyddu'n effeithiol.

9.3.3 **RHAID** i unigolion sy'n sefydlu tudalen codi arian allu weld y canllawiau yn glir ar y safle a **RHAID** i'r canllawiau gael eu harddangos cyn y pwynt lle mae'r tudalennau rhoi yn cael eu cyhoeddi.

9.3.4 **RHAID** i'r canllawiau dynnu sylw at yr ystyriaethau canlynol ar gyfer codwyr arian unigol o ran sut y maent yn cynllunio eu hapêl i ddarpar roddwyr, gan gynnwys y goblygiadau codi arian mewn achos lle na nodir unrhyw elusen fel y buddiolwr, gan gynnwys:

- a) y posibilrwydd y gall fod angen cofrestru'r apêl ei hun fel elusen gyda'r



Comisiwn Elusennau; a

b) os yw'r llwyfan codi arian ei hun yn elusen, bydd rhaid i'r apêl fodloni'r gofynion cyfreithiol er budd cyhoeddus.

9.3.5 **RHAID** i'r canllawiau dynnu sylw at yr ystyriaethau canlynol ar gyfer codwyr arian unigol o ran sut y maent yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w hapêl i ddarpar roddwyr trwy eu tudalen codi arian ar y safle:

a) pwy sy'n trefnu'r apêl;

b) ar gyfer beth gaiff yr arian ei ddefnyddio (diben yr apêl). Gweler hefyd rheol 5.2e y Cod ar arian a roddir at ddiben cyfyngedig;

c) pan fo'n gymwys, beth fydd targed yr apêl – gallai hyn fod yn darged amser neu'n darged ariannol;

d) a yw'r codwr arian yn codi arian ar ran neu ar gyfer elusen gofrestredig;

e) sut y gellir gwneud cyfraniadau;

f) pa ddiidyniadau gaiff eu gwneud ar gyfer treuliau; a

g) beth fydd y codwr arian yn ei wneud gyda'r arian os:

- nad yw'n codi digon i gyrraedd y targed a nodir;
- mae'n codi swm sy'n fwy na'r targed a nodir; neu
- y pwrpas gwreiddiol y mae'n ceisio rhoddion ar ei gyfer yn annilys am unrhyw reswm.

9.3.6 **RHAID** i'r llwyfan ei gwneud hi'n ofynnol i unigolion sy'n sefydlu tudalen codi arian ar y safle i ddarparu camau gweithredu cadarnhaol clir cyn i'r dudalen roi gael ei chyhoeddi (trwy ddull optio i mewn gweithredol megis blwch optio i mewn heb ei dicio) sy'n nodi bod yr unigolyn wedi darllen ac yn deall y canllawiau.

### Gwasanaethau Talu

9.3.7 **RHAID\*** i Lwyfannau Codi Arian sydd wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Talu gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau Gwasanaethau Talu 2017.

### Cwestiynau'r Ymgynghoriad ar Ran C

Mae'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn ceisio eich barn ar yr ychwanegiadau hyn i'r Cod:

1. Ydy'r rheolau arfaethedig yn cwmpasu'n ddigonol feysydd o bryder ynghylch llwyfannau codi arian ar-lein?

Ydy / Nac ydy (Os nac ydy, esboniwch eich rhesymau)

2. Ydych chi'n cymeradwyo'r geiriad ar gyfer y rheolau ychwanegol arfaethedig i'w cynnwys yn y Cod yn Adran 9?

Ydw / Nac ydw (Os nac ydych, esboniwch eich rhesymau)

3. Oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y geiriad diwygiedig arfaethedig?



**Nodyn Cyfreithiol** - Yn ystod yr ymgynghoriad, byddwn yn ceisio cyngor cyfreithiol i wirio a oes unrhyw wahaniaeth yn y gyfraith ar Ymddiriedolaethau rhwng Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac yn cadarnhau'r sefyllfa pan fyddwn yn adrodd yn ôl ar ganlyniad yr ymgynghoriad.

### **Ymateb i'r Ymgynghoriad hwn**

Dylai ymatebion i **Ran A** ar ddelio â chwynion a **Rhan B** ar archwilio cydymffurfiaeth â'r Gwasanaeth Dewis Galwadau Ffôn ein cyrraedd ni erbyn **dydd Mercher 28 Chwefror 2018**.

Dylai ymatebion i **Ran C** ar reolau newydd y Cod ar gyfer llwyfannau codi arian ar-lein ein cyrraedd ni erbyn **dydd Mercher 14 Mawrth 2018**.

Anfonwch eich ymateb trwy'r e-bost at [consultations@fundraisingregulator.org.uk](mailto:consultations@fundraisingregulator.org.uk)

neu drwy'r post at: Policy Department  
Fundraising Regulator  
2nd Floor, CAN Mezzanine  
49-51 East Road  
London  
N1 6AH

Os oes unrhyw gwestiynau gennych, cysylltwch â'r Rheoleiddiwr Codi Arian e-bost: [enquiries@fundraisingregulator.org.uk](mailto:enquiries@fundraisingregulator.org.uk)  
ffôn: 0300 999 3407.

### **Delio â'ch ymateb**

Rydym yn disgwyl cyhoeddi pob ymateb. Fodd bynnag, os ydych yn gofyn i ni beidio â chyhoeddi eich ymateb, byddwn yn ystyried eich cais o ddifrif.

### **Y camau nesaf yn y broses**

Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi ar dudalennau gwe yr ymgynghoriad ynghyd â phenderfyniad terfynol y Rheoleiddiwr Codi Arian ynghylch newidiadau i'r Cod.

### **Sylwadau a chwynion**

Os oes unrhyw sylwadau gennych i'w gwneud ynghylch sut mae'r ymarfer ymgynghori hwn wedi cael ei gynnal, rhowch wybod i ni trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt ymholi uchod.